



The Prince's
Responsible
Business Network
Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sut i fanteisio ar dalent filwrol

YSBRYDOLWCH CYFLOGGWCH DATBLYGWCH

Pecyn Cymorth i Gyflogwyr

**Canllaw syml ar gyflogi
cyn-filwyr a milwyr wrth
gefn y Lluoedd Arfog yng
Nghymru**



CYNNWYS

3	Rhagair
4	Cyflwyniad
5	Canllaw i ddechreuwr i'r fyddin
6	Yr Achos Busnes
8	Ysbrydolwch Dalent
10	Cyflogwch Dalent
12	Datblygwch Dalent
14	Cipolwg ar fusnes bach a chanolig: D.J. Rees
16	Cipolwg: Alcumus
18	Cynghorion Da ar Greu Rhwydwaith Mewnol
19	Holi ac Ateb: Excelitas Qioptic
20	Cipolwg: Alun Griffiths Contractors
22	Cipolwg ar y Sector Micro / Trydydd Sector
24	Rhestr wirio Strategaeth a Chynllun Gweithredu
26	Cyfeiriadur
28	Geirfa A-Y
29	Atodiad: Ffynonellau cymorth cyflogaeth

Ynglŷn â Busnes yn y Gymuned

Busnes yn y Gymuned Cymru yw Rhwydwaith Busnes Cyfrifol y Tywysog yng Nghymru.

Rydym yn bodoli i adeiladu cymunedau iach sydd â busnes cyfrifol yn ganolog iddynt.

www.bitc.org.uk/wales

Datblygwyd y pecyn cymorth hwn gan Busnes yn y Gymuned (BITC) Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru. Hoffem ddiolch i'r holl gyflogwyr ac unigolion a fu'n cynorthwyo â datblygu'r adnodd hwn, yn arbennig y rheiny a ddarparodd ddyfyniadau, astudiaethau achos a syniadau, gan gynnwys: Y Llang Brydeinig Frenhinol, Alcumus, D.J. Rees, Excelitas Qioptic, Alun Griffiths Contractors, Empower Support for the Voluntary Sector a Chymdeithas y Swyddogion. Hefyd, hoffem ddiolch yn arbennig i aelodau o'n Grŵp Arweinyddiaeth ar Gyflogi Cyn-filwyr, gan gynnwys Bouygues UK, Costain, Wales & West Utilities, Coleg Caerdydd a'r Fro a Wates am eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth i'r prosiect hwn. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Business in the Community Scotland a Llywodraeth Yr Alban am ddechrau'r canllaw cyntaf ynghylch Manteisio ar Dalent Filwrol a chefnogi'r rhifyn Cymraeg newydd hwn.

RHAGAIR

GAN ALUN DAVIES AC

RYDYM I GYD YN CYDNABOD Y LLE SYDD GAN EIN LLUOEDD ARFOG YNG NGHYMURU AC RYDYM YN FALCH O'N CYN-FILWYR A'N HANES MILWROL YR YDYM YN EI RANNU.

Gan fod tua 385,000¹ o aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog yn byw yng Nghymru, gwyddom werth eu cyfraniad at y ffordd Gymreig o fyw.

Gwyddom fod mwyafrif o'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn ailafael mewn bywyd allan o'r lluoedd arfog yn effeithiol, gan ddefnyddio'r amrywiaeth eang o sgiliau a ddatblygwyd yn y Lluoedd Arfog i gael swydd ystyrion a chyfrannu at eu cymunedau.

Fodd bynnag, bydd angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt. Yn ddiweddar, lansiâs Llwybrau Cyflogaeth Llywodraeth Cymru, sy'n nodi'r cymorth amrywiol sydd ar gael yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru eisïau sicrhau bod y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr yn cael cymorth i weithio a'u bod yn cael y wybodaeth sy'n berthnasol i'w hanghenion.

I ychwanegu at y Llwybr Cyflogaeth, gofynnais i Busnes yn y Gymuned Cymru weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu Pecyn Cymorth i Gyflogwyr.

Bwriad y Pecyn Cymorth hwn i Gyflogwyr yw codi ymwybyddiaeth ymhlith darpar gyflogwyr am yr ystod unigryw ac eang o sgiliau ac ymddygiadau y mae cyn-ddynion a chyn-fenywod y Lluoedd Arfog yn meddu arnynt wrth ailafael mewn bywyd allan o'r lluoedd arfog; profiad a fyddai'n gaffaeliad i unrhyw gwmni.

Ar ran Llywodraeth Cymru, rwy'n falch iawn o groesawu'r Pecyn Cymorth hwn i Gyflogwyr i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cwmnïau hynny nad ydynt efallai wedi ystyried manteision cyflogi'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr o'r blaen. Mae'n dangos sut gall cyflogwyr wella eu gweithlu trwy fanteisio ar y sgiliau a'r disgyblaethau a enillwyd yn ystod cyfnod yn gwasanaethu, gan gynnwys sgiliau arwain, gwydnwch a sgiliau trefnu.

Mae ein cyn-filwyr wir yn haeddu pob cyfle i gael ail yrfa lwyddiannus ar ôl iddynt roi cymaint dros eu gwlad



Alun Davies AM
Ysgrifennydd y
Cabinet dros
Lywodraeth Leol a
Gwasanaethau
Cyhoeddus

¹ Arolwg Cartrefi y Lleng Brydeinig Frenhinol

CYFLWYNIAD

MAE YNA RESYMAU CYMDEITHASOL A RHESYMAU BUSNES I GYFLOGWYR YNG NGHYMRU YMGYSYLLTU'N FWY Â CHYN-SWYDDOGION Y LLUOEDD ARFOG.

Mae recriwtio pobl dalentog, hyfforddedig ac sy'n barod am waith yn her gynyddol i fusnesau yng Nghymru.

Dangosodd arolwg sgiliau² diweddaraf Llywodraeth Cymru fod gan o leiaf chwech y cant o leiaf un swydd wag o ganlyniad i brinder sgiliau – sydd gyfwerth â 9,000 o swyddi gwag ledled Cymru.

Mewn cyfnod o gynnydd cyson mewn cyflogaeth, mae cyflogwyr yn galw am staff medrus sydd â'r agwedd a'r priodoleddau cywir i gefnogi eu busnesau sy'n tyfu – a phob blwyddyn yng Nghymru, mae cyn-filwyr yn gadael y Lluoedd Arfog gyda'r cyfuniad hwn yn union.

Ond er bod llawer o gyn-filwyr yn mynd ymlaen i gael gyrfaedd llwyddiannus ar ôl gadael y Lluoedd Arfog, nid yw hyn bob amser yn wir. Nid oes cynrychiolaeth ddigonol o gyn-filwyr yn y gweithlu ar y cyfan, ac mae cyn-filwyr o oedran gweithio bron ddwywaith mor debygol o fod yn ddi-waith fel sifiliaid³. Gall problemau fel diffyg cymwysterau academaidd neu anawsterau i gyflogwyr yn cydnabod profiadau milwrol o fewn strwythurau recriwtio corfforaethol fod yn rhwystrau sylweddol rhag recriwtio.

Felly, er bod cyflogwyr yn ei chael yn anodd recriwtio, mae gan Gymru garfan sylweddol o bobl sy'n meddu ar gymwysterau unigryw, sy'n perfformio'n dda y gallai fod angen ychydig bach o gymorth ychwanegol arnynt i fod yn rhan o'r gweithlu. A thrwy weithio gyda chyflogwyr i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth cynyddol, gallwn helpu atal y problemau cymdeithasol a'r problemau iechyd mwy difrifol a ddaw yn sgil diweithdra, fel digartrefedd ac iechyd meddwl gwael.

Rydym wedi datblygu'r pecyn cymorth hwn i helpu cyflogwyr i adnabod y sgiliau a'r profiadau gwerthfawr y gall cyn-filwyr eu cynnig i'w busnes – a deall y camau ymarferol y gallant eu cymryd i greu amgylchedd gweithio sy'n fwy addas ar gyfer cyn-filwyr.

Defnyddio'r pecyn cymorth

Cynlluniwyd y pecyn cymorth hwn ar sail model fframwaith cyflogaeth **Ysbrydolwch, Cyflogwch, Datblygwch** sydd wedi hen ennill ei blwyf. Mae'n arwain busnes trwy broses syml o ddatblygu rhaglen recriwtio a chadw strategol, sy'n addas ar gyfer cyn-filwyr y lluoedd arfog.



YSBRYDOLWCH || CYFLOGWCH || DATBLYGWCH

Mae'r cyngor yn y pecyn cymorth hwn yn berthnasol i fusnesau o bob maint ac mewn unrhyw sector. I ddangos hyn yn ymarferol, yn y ddogfen hon, fe welwch enghreifftiau ysbrydoledig o fusnesau yng Nghymru sydd eisoes yn elwa ar y gwaith y maent wedi ei wneud i gyflogi a chynorthwyo cyn-filwyr.

Tuag at ddiwedd y ddogfen, fe welwch restr wirio syml o gamau cadarnhaol y gallwch eu cymryd a chanllaw ynghylch rhai o'r sefydliadau arbenigol niferus sy'n gallu eich cefnogi a'ch helpu.

Os ydych chi'n un o'r cwmnïau sy'n gweithredu a bod gennych stori yr hoffech i ni ei rhannu ochr yn ochr â'r pecyn cymorth hwn, cysylltwch â BITC Cymru ar twitter: @BITCCymru neu ar cymru@bitc.org.uk.

² [Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau – Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015](#)

³ [Cymuned Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog yn y DU: Arolwg Cartrefi 2014](#)

CANLLAW DECHREUWYR I ADAEL Y FYDDIN

Gall fod yn anodd deall yr amgylchedd y mae cyn-filwyr yn ei adael a sut gall eich busnes ymgysylltu'n effeithiol. Mae'r adran hon yn cwmpasu'r pethau y dylid eu gwybod.

Cipolwg ar y Lluoedd Arfog

Roedd 192,130⁴ yng Ngwasanaeth Lluoedd y DU ar 1 Hydref 2018. Mae'r nifer honno'n cynnwys y Fyddin Brydeinig, y Llynges Frenhinol a'r Môr-filwyr Brenhinol a'r Llu Awyr Brenhinol. O fewn y cyfanswm hwnnw, mae'r Milwyr Wrth Gefn Gwirfoddol, sef pobl sy'n ymrwmo i hyfforddiant blynyddol ac y gellir eu paratoi i gefnogi'r Lluoedd Rheolaidd gartref neu dramor (rhan-amser neu amser llawn). Yn y flwyddyn hyd at 1 Hydref 2018, gadawodd ychydig llai nag 15,000⁵ o bobl Luoedd Rheolaidd y DU. Mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn 'trosglwyddo' yn llwyddiannus o'r lluoedd ac yn dechrau cyflogaeth ar ôl gadael y fyddin, ond bydd angen mwy o gymorth ar rai ohonynt i wneud hynny.

36,870

38,650

116,610

Y LLU AWYR BRENHINOL

**Y LLYNGES FRENHINOL A'R
MÔR-FILWYR BRENHINOL**

Y FYDDIN BRYDEINIG

Ble gall eich busnes ymgysylltu?

Mae llawer o ffyrdd y gallwch gysylltu eich busnes â thalent filwrol. Amlygir pedwar maes allweddol yn fras isod ond byddwch yn gweld manylion llawn yn ein Hatodiad.

- **Partneriaeth Pontio Gyrfaoedd (CTP)** – Gwasanaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yw Partneriaeth Pontio Gyrfaoedd sy'n darparu cymorth adsefydlu, gan gynnwys datblygu gyrfa. Gall cyflogwyr elwa ar wasanaethau recriwtio am ddim i gael mynediad at y garfan talent filwrol. Mae'n bwysig gwybod bod CTP wedi'i leoli y tu allan i Gymru ond maent yn gweithio gyda chyflogwyr yn lleol.
- **Rheoli Cysylltiadau Amddiffyn (DRM)** – Mae'r DRM, rhan o'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn gweithio gyda chyflogwyr o gwmpas y wlad i feithrin cysylltiadau â'r fyddin. Mae'r tîm wedi ei leoli'n lleol i feithrin partneriaethau gyda chwmnïau yng Nghymru a hyrwyddo manteision llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog.
- **Cyfamod y Lluoedd Arfog yng Nghymru (AFC)** – Mae'r AFC yn adduned gan y genedl fod y rheiny sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg. Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi llofnodi'r Cyfamod, a hyd yma, mae dros 100 o fusnesau, elusennau a sefydliadau yng Nghymru wedi ymuno â nhw, gan gynnwys llawer o'r cwmnïau sydd wedi eu cynnwys yn y pecyn cymorth hwn.
- **Elusennau a sefydliadau eraill** – Mae llawer o elusennau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau, cynlluniau a chymorth ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog y gallwch gysylltu â nhw. Mae llawer o'r rhain yn ein Cyfeiriadur.

⁴ [Ystadegau Personél Gwasanaeth Chwarterol Lluoedd Arfog y DU, Y Weinyddiaeth Amddiffyn/Swyddfa Ystadegau Gwladol, 1 Hydref 2018](#)

⁵ [Ystadegau Chwarterol a Phersonél Lluoedd Arfog y DU, Y Weinyddiaeth Amddiffyn/Swyddfa Ystadegau Gwladol, 1 Hydref 2018](#)

YR ACHOS BUSNES

Mewn cyfnod pan fo cynnydd mewn cyflogaeth, mae cyflogwyr yn cystadlu i ddod o hyd i ymgeiswyr medrus a chymwys. Mae nifer gynyddol o gyflogwyr yng Nghymru yn manteisio ar dalent filwrol i sôn am y bwch hwn mewn sgiliau gan eu bod yn cynrychioli ffynhonnell barod o dalent dda y gall busnesau elwa arni gyda'r broses recriwtio gywir.



5 RHESWM I GYFLOGI CYN-FILWYR YN EICH BUSNES...

1.

MAE CYN-FILWYR YN HYNOD GYMWYS

Roedd cyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU sy'n byw ym Mhrydain Fawr gryn dipyn yn fwy tebygol o fod wedi ennill eu cymwysterau trwy waith o gymharu â'r rheiny nad ydynt yn gyn-filwyr (63.5% o gymharu â 45.3% yn y drefn honno). Gallai hyn fod o ganlyniad i gyn-filwyr yn defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael i ennill cymwysterau pan oeddent yn y Lluoedd Arfog, neu fod cyn-filwyr yn fwy tebygol o ymgymryd â hyfforddiant galwedigaethol ar ôl gadael y Lluoedd Arfog⁶.

2.

MAE GAN GYN-FILWYR AGWEDDAU GWERTHFAWR AC MAE MODD EU HADDASU

Dywed David Manners, a fu'n gwasanaethu yn y Fyddin Brydeinig ac sydd bellach yn gweithio i gwmni peirianeg sifil ac adeiladu yn y Fenni, Alun Griffiths Contractors:

“Mae gan bobl filwrol feddylfryd cadarnhaol, maen nhw'n gallu bwrw ymlaen â'r gwaith a does dim ofn cyfrifoldeb arnyn nhw. Mae pobl filwrol yn hyblyg, gan eu bod nhw wedi arfer cael eu rhoi yn ddirybudd mewn sefyllfaoedd unrhyw le yn y byd a bwrw ymlaen â'r gwaith. Maen nhw hefyd yn amryddawn, gan eu bod yn addasu i newid yn dda – roeddwn i'n symud bob dwy flynedd yn y Fyddin.”

⁶ [Arolwg Poblogaeth Blynnyddol: Cyn-filwyr Lluoedd Arfog y DU sy'n byw ym Mhrydain Fawr, 2015, cyhoeddwyd 13 Hydref 2016](#)

3.

MAE CYN-FILWYR YN WEITHWYR MEDRUS

Gan fod dros 200 o fasnachau yn y Fyddin yn unig, mae llawer o gyn-filwyr wedi eu hyfforddi ac yn brofiadol mewn ystod o rolau technegol, ac mae modd eu trosglwyddo i gyd i'r gweithle sifil.

Dywed David Rees, sylfaenydd a chyfarwyddwr y cwmni adeiladu D.J. Rees, sydd wedi ei leoli ym Merthyr Tudful:

“Mae angen i gwmnïau bach wybod bod cyn-filwyr yn drydanwyr, yn beirianwyr ffeibr optig, yn arbenigwyr TG a dynion diogelwch, ac nid oes angen ailhyfforddi llawer ohonyn nhw. Mae gan bobl filwrol sgiliau cyfathrebu da hefyd.”

4.

MAE CYN-FILWYR YN GYFLOGEION HYNOD EFFEITHIOL

Mewn arolwg o 50 o gyflogwyr a gynhaliwyd gan Deloitte⁷, dywedodd 76% o gyflogwyr fod cyn-filwyr yn tueddu i gael cyfraddau is o absenoldeb oherwydd salwch o gymharu â'u gweithlu nad ydynt yn gyn-filwyr a'u bod yn debygol o gael dyrchafiad yn gyflymach. Dywedodd 40% ohonynt hefyd fod cyn-filwyr yn aros am gyfnod hwy.

5.

MAE CYFLOGI CYN-FILWYR YN DDA I FUSNES A CHYMDEITHAS

Dangosodd arolwg o 100 o gyflogwyr a gynhaliwyd gan y Sefydliad Gwasanaethau Unedig Brenhinol⁸ (RUSI) fod 74% o gyflogwyr yn dymuno cefnogi'r Lluoedd Arfog yn gyhoeddus. Disgrifiodd llawer ohonynt eu haddunedau fel 'y peth cywir i'w wneud' a oedd yn adlewyrchu'n ffafriol ar ganfyddiadau cyhoeddus o'u cwmni.

MAE GWASANAETH MILWROL YN MEITHRIN SGILIAU ARWAIN, TREFNU, GWYDNWCH A LLAWER O RINWEDDAU RHAGOROL ERAILL SY'N GAFFAELIAD GWYCH I UNRHYW FUSNES.

⁷ [Veterans Work](#), Deloitte, et al, Tachwedd 2016

⁸ [The Art of the Covenant](#): Cyfamod y Lluoedd Arfog a Rôl y Sector Masnachol. RUSI, Hydref 2016

YSBRYDOLWCH DALENT



AWGRYMIADAU YMARFEROL I YSBRYDOLI A PHARATOI CYN-FILWYR AR GYFER CYFLOGAETH SIFIL

1. ESTYNNWCH ALLAN I BONTIO A CHEISWYR SWYDD SY’N GYN-FILWYR

Mae nifer o elusennau ac asiantaethau cymorth profiadol sy’n gallu helpu i chi dderbyn ymgeiswyr milwrol heb unrhyw gost i’ch busnes. Mae’r rhain yn cynnwys ffeiriau digwyddiadau a gyrfaedd wedi eu trefnu gan y Bartneriaeth Pontio Gyrfaedd (CTP) a Gwasanaeth Adsefydlu’r Lluoedd Prydeinig (BFRS). Gweler yr atodiad am restr o sefydliadau.

Mae Excelitas Qioptiq yn Sir Ddinbych yn dylunio a gweithgynhyrchu cynhyrchion ffotoneg. Maent yn defnyddio platfformau cymdeithasol a phroffesiynol ar gyfer recriwtio. Mae’r tîm AD yn mynychu ffeiriau recriwtio yn benodol ar gyfer y rheiny sy’n gadael y lluoedd arfog yn rheolaidd, mae’n postio swyddi gyda’r Bartneriaeth Pontio Gyrfaedd ac mae wedi dechrau defnyddio platfform ar-lein MRHQ (Pencadlys Adsefydlu Milwrol), sef y gronfa ddata fwyaf o’r rhai sy’n gadael y Lluoedd Arfog, ac mae’n weithredol iawn ar Facebook. Mae hefyd yn defnyddio asiantaethau recriwtio sy’n targedu cyn-bersonél milwrol.

2. TREFNWCH DDIWRNODAU CIPOLWG MILWROL

Mae diwrnodau cipolwg yn ffordd gost effeithiol o helpu cyn-bersonél y Lluoedd Arfog i ddeall eich busnes a’r mathau o swyddi a gynigir yn well.

Fe wnaeth y cwmni rheoli risg, Alcumus, sydd â’i bencadlys yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, sy’n helpu sefydliadau i fod yn fwy diogel, yn iachach ac yn gryfach, fynychu ffeiriau gyrfaedd ar gyfer talent filwrol. Wedyn, cynhaliodd Alcumus ddiwrnod cipolwg yn eu swydddfeydd, lle gallai pobl yr oeddent wedi cyfarfod â nhw mewn ffeiriau gyrfaedd milwrol siarad â chyflogeion am y diwylliant gwaith a’r sefydliad, gofyn cwestiynau a deall mwy am y rolau a’u profiad trosglwyddadwy.

3. DARPARWCH BROFIAD YMARFEROL O'R GWEITHLE

Mae profiad gwaith, lleoliadau ac interniaethau yn ffordd dda i gyflogwyr gynorthwyo cyn-filwyr i oresgyn rhwystrau a chael cyflogaeth. Gall ceiswyr swydd gael profiad uniongyrchol hanfodol o'r gweithle allan o'r lluoedd arfog a gall cyflogwyr ddarganfod am fanteision cyflogi cyn-bersonél milwrol.

Mae David Rees, sylfaenydd a chyfarwyddwr cwmni adeiladu D.J. Rees, sydd wedi ei leoli ym Merthyr Tudful, wedi gweld safle rhwydweithio busnes LinkedIn yn ddefnyddiol iawn ar gyfer lleoliadau gwaith:

“Postiais ar LinkedIn am gyn-filwr a oedd yn hyfforddi fel plymer. Cysylltodd llawer iawn o bobl â mi wedyn. Cafodd ei leoli ac fe gafodd ei gadw ar ôl hynny fel cyflogai. Mae'n rhoi ymdeimlad gwych i mi fy mod wedi helpu â hynny.”

4. CYNIGIWCH SGILIAU A HYFFORDDIANT TROSI

Mae darparu hyfforddiant paratoadol, hyfforddiant ymsefydlu neu hyfforddiant sy'n benodol i rôl yn helpu cyn-filwyr i lwyddo'n gyflymach yn eich busnes. Ystyriwch roi rhaglen ymsefydlu bwrpasol ar waith ar gyfer cyn-filwyr newydd sy'n cael eu recriwtio.

CYNGOR DA >>

Mae'r cwmni rheoli risg Alcumus wedi rhoi cynllun talent filwrol ar waith ar draws y Grŵp. Terri Foulston sy'n arwain tîm recriwtio mewnol Alcumus:

“Os gallwch chi gynorthwyo rhywun nad yw'n meddu ar y pecyn llawn o ran cymwysterau diwydiannol, ystyriwch eu sgiliau a'u profiad trosglwyddadwy. Hefyd, mae'n bwysig ystyried beth yw'r ffordd orau o'u derbyn a sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r broses recriwtio, gan wneud yn siŵr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y rôl a'r sefydliad.”

5. CYNIGIWCH ARWEINIAD AR YSGRIFENNU CV A THECHNEGAI CYFWELD

Nid oes gan fwyafrif y cyn-bersonél milwrol brofiad o'r broses recriwtio sifiliaid ac maent yn ei chael yn anodd cyfleu a hyrwyddo eu cyflawniadau eu hunain. Trefnwch weithdai neu weminarau sy'n canolbwyntio ar helpu cyn-filwyr sy'n chwilio am swydd i lunio eu CV.

Mae Lucy Morrell, sy'n Uwch Ymgynghorydd AD, sydd â chyfrifoldeb am recriwtio, yn Excelitas Qioptiq, yn dweud eu bod wedi teilwra'r iaith y maent yn ei defnyddio wrth hysbysebu swyddi er mwyn darparu ar gyfer cyn-filwyr.

“Mae'n gromlin ddysgu i'r ddwy ochr, fel rydym wedi ei ddysgu trwy'r ffeiriau recriwtio milwrol yr ydym wedi eu mynychu, lle byddai pobl yn sylwi ar ein hysbysebion ac yn gofyn 'beth mae hyn yn ei olygu?'. Mae hyn wedi ein gwneud yn fwy ymwybodol o'r termau y byddai'r fyddin yn eu defnyddio o gymharu â'r hyn y byddem ni'n eu defnyddio. Rydym wedi addasu ein geirfa a'r ffordd rydym yn pennu ein rolau o'r herwydd.”



CYFLOGWCH DALENT



AWGRYMIADAU YMARFEROL I GREU PROSES RECRIWTIO SY’N HYGyrCH AC YN ADDAS AR GYFER CYN-FILWYR

1. DYNODWCH UNIGOLYN AR LEFEL UWCH I HYRWYDDO AC ARWAIN Y RHAGLEN

Anogwch uwch arweinydd busnes i hyrwyddo cyn-filwyr ac arwain cynllunio a gweithredu eich rhaglen.

Dechreuwyd y cynllun talent filwrol yn y cwmni rheoli risg Alcumus gan y cyn-filwr Mark Burgess, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Maes. Ymunodd â’r cwmni ar ôl 23 mlynedd o wasanaeth milwrol. Newidiodd i ymgymryd â rôl archwilio ac roedd yn awyddus i archwilio sut gallai’r busnes elwa ar y set sgiliau y mae cyn-filwyr sy’n gadael y Gwasanaethau yn dod gyda nhw. Mae rheoli risg yn ddiwydiant cynyddol ond mae prinder gweithwyr medrus. Mae’r cynllun talent filwrol wedi bod ar waith ers saith mis bellach ac mae’n llwyddiannus. Mae tua 10-15% o weithlu Alcumus yn gyn-filwyr.

2. CRÛWCH SWYDD-DDISGRIFIADAU A HYSBYSEBION CLIR

Defnyddiwch arbenigedd staff AD a chyflogeion sy’n gyn-filwyr i greu swydd-ddisgrifiadau clir ac eglur i sicrhau bod gennych yr ymgeiswyr cywir ar gyfer eich swyddi.

CYNGOR DA >>

Mae Excelitas Qioptiq wedi newid y ffordd y mae’n ysgrifennu hysbysebion swyddi o ganlyniad i fynychu ffeiriau gyrfaoedd milwrol. Dywed Lucy Morrell, Uwch Ymgynghorydd AD:

“Byddem ni’n defnyddio’r term triniwr ‘deunydd’, sy’n rôl warws. Ond gallai unigolyn milwrol roi ‘logisteg’ ar ei CV. Wrth hysbysebu rolau ar-lein, rydym yn ystyriol o’r hyn y gallai pobl filwrol ei deipio mewn peiriannau chwilio, felly byddwn yn defnyddio ein term ni a’r term milwrol i sicrhau bod ein hysbysebion swyddi yn dal diddordeb y bobl gywir pan fyddan nhw’n chwilio am swyddi ar-lein.”

3. HYFFORDDWCH RECRIWTWYR I DDEHONGLI PROFIAD MILWROL

Sicrhewch fod rheolwyr a recriwtwyr sy’n cyflogi yn deall sut i ddehongli’r profiad milwrol. Os nad oes gennych y set sgiliau o fewn eich busnes, cysylltwch â’r sefydliadau a restrir yng nghefn y pecyn cymorth hwn am gyngor ar sut i wneud hyn.

4. CRÛWCH BORTH AR-LEIN NEU DUDALEN GYRFAOEDD BWRPASOL

Bydd datblygu porth swyddi milwrol dynodedig neu dudalen filwrol ar eich gwefan sy’n glir ac yn hawdd ei defnyddio yn denu ceiswyr swyddi sy’n gyn-filwyr i’ch sefydliad. Os na allwch greu’r porth eich hun, cyfrannwch at un sy’n bodoli neu ysgrifennwch eich bod yn croesawu ceisiadau gan Gyn-filwyr neu Filwyr wrth gefn ar y dudalen.

5. CANOLBWYNTIWCW AR BOTENSIAL A SGIL

Aseswch ymgeiswyr milwrol ar sail gallu a photensial, nid profiad neu gymwysterau blaenorol. Datblygwch broses ymgeisio sy'n seiliedig ar gymhwysedd sy'n canolbwyntio ar y mathau o sgiliau a chymwyseddau sydd eu hangen ar unigolion ar gyfer y swydd.

CYNGOR DA >>

Bu David Manners yn gwasanaethu yn y Fyddin Brydeinig, ac mae bellach yn gweithio i gwmni peirianeg sifil ac adeiladu Alun Griffiths Contractors yn y Fenni. Ef yw Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog yn y cwmni. Dywed:

“Peidiwch â chael syniadau penodol am y fyddin. Mae angen i gwmnïau gael meddwl llawer mwy agored ynglŷn â recriwtio cyn-filwyr. Rhowch gyfle iddyn nhw a byddan nhw'n rhagori, oherwydd os na rowch y profiad hwnnw iddyn nhw, byddan nhw ddim yn ei gael.”

6. HYSBYSEBWCH SWYDDI TRWY'R CTP, ELUSENNAU MILWROL AC ASIANTAETHAU ERAILL

Hysbysebwcw rolau trwy asiantaethau ac elusennau recriwtio ymgynghoriaethau arbenigol, gan mai'r rhain yn aml fydd y cyswllt cyntaf ar gyfer cyn-filwyr sy'n chwilio am swydd. Gweler ein rhestr o elusennau a sefydliadau arbenigol sy'n hysbysebu swyddi yn y Cyfeiriadur. Defnyddiwch gyfryngau cymdeithasol, eich rhwydwaith mewnol a'ch porth swyddi ar-lein i rannu swyddi gwag.

CYNGOR DA >>

O ran y cyfryngau cymdeithasol, mae Excelitas Qioptiq, D.J. Rees Construction ac Empower Support ar gyfer y Sector Gwirfoddol i gyd yn dweud bod safleoedd rhwydweithio yn lle da i gysylltu â sefydliadau ac unigolion yn y byd milwrol a'r byd busnes, postio swyddi a dod o hyd i ddarpar weithiwr.

7. ANOGWCH EICH CADWYN GYFLENWI I FABWYSIADU ARFERION RECRIWTIO SY'N ADDAS AR GYFER Y LLUOEDD ARFOG

Cyfathrebwcw â'ch cadwyn gyflenwi a'ch cwsmeriaid ynglŷn â pham y bydd eich cyn-filwyr sy'n hyrwyddo busnes yn y gweithle yn annog pobl eraill i wneud yr un fath.

CYNGOR DA >>

Dywed David Manners o gwmni peirianeg sifil ac adeiladu Alun Griffiths Contractors yn y Fenni:

“Un o'n prif gleientiaid yw Network Rail, sydd wedi ennill Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn. Rydym yn cyfleu'r neges wrth ein cadwyn gyflenwi, ac yn dweud, ‘Rydym ni'n aelod o'r cynllun hwn. Os hoffech chi wybod mwy, fel un o'n cyflenwyr, mae croeso i chi gysylltu’.”

DATBLYGWCH DALENT



CYNGHORION YMARFEROL I GREU AC YMGORFFORI DIWYLLIANT CEFNOGOL SY'N HELPU CYN-FILWYR I DDATBLYGU A GWNEUD CYNNYDD

1. DANGOSWCH GYFEILLGARWCH AT GYN-FILWYR

Paratowch ddatganiad ysgrifenedig yn esbonio pam mae'r busnes wedi ymrwymo i gyflogi ymgeiswyr milwrol o blith aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth. Cysylltwch â chyfryngau lleol am eich rhaglen filwrol a chynigiwch gyfweiliadau gyda'r Prif Weithredwr neu'r Rheolwr Gyfarwyddwr i ddangos bod ymrwymiad wedi dod o'r brig.

ENGHRAIFFT



Llwyddodd cwmni Edwards Coaches sydd wedi'i leoli ym Mhontypridd i gael sylw yn y cyfryngau pan wnaethant lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog yn 2017. Ymddangosodd y Rheolwr Gyfarwyddwr, Jason Edwards mewn cyfryngau lleol gan fod y cwmni wedi llofnodi'r cyfamod ac addo na fyddai unrhyw un dan anfantais o ganlyniad i wasanaethu yn y fyddin.

Dywedodd: "Dros y blynyddoedd, mae llawer o gyn-filwyr wedi gweithio gyda ni ac rydym yn ystyried ein hunain yn fusnes sy'n Addas ar gyfer y Lluoedd Arfog ers tro. Mae'n bleser gennym ni lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog ac mae ffurfioli ein cefnogaeth wedi arwain at gyfleoedd i ni gyflogi mwy o gyn-filwyr."

2. SEFYDLWCH RHYDWAITH MILWROL MEWNOL AR GYFER CYN-FILWYR, MILWYR WRTH GEFN A GWYR/GWRAGEDD MILWYR

Mae creu rhwydwaith milwrol mewnol fel fforwm ar gyfer rhwydweithio a gwybodaeth yn ffordd gadarnhaol o gysylltu â'r gymuned filwrol.

CYNGOR DA >>

Gwiriwch y cynghorion da gan Gymdeithas y Swyddogion ar greu rhwydwaith mewnol, yn unol â'r manylion ar Dudalen 18.

3. HYRWYDDWCH YMRWYMIAD I GEFNOGI CYN-BERSONÉL MILWROL TRWY EICH GWEFAN A'CH CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Mae ymrwymo i gael rhaglen filwrol weledol yn ffordd gadarnhaol o sicrhau bod pobl newydd sy'n ymuno â'ch cwmni sy'n gyn-filwyr yn teimlo'n hyderus y byddant yn cael eu cefnogi. Cyhoeddwch astudiaethau achos cyflogeion sy'n gyn-filwyr ar wefan y cwmni i amlygu rolau y mae cyn-bersonél milwrol wedi trosglwyddo iddynt yn llwyddiannus o fewn y cwmni.

ENGHRAIFFT



Mae General Dynamics UK sydd wedi'i leoli yn y Coed-duon, yn un o gwmnïau amddiffyn arweiniol y DU ac yn gyflenwr pwysig i Weinyddiaeth Amddiffyn y DU (MoD). Mae gan General Dynamics dudalen ddynodedig ar wefan y cwmni yn esbonio'i ymrwymiad i Gyfamod y Lluoedd Arfog.

Ar ei dudalen gyrfaoedd, mae General Dynamics UK yn amlygu gwahanol aelodau'r tîm. Un o'r rhain yw Ian Taylor, peiriannydd integreiddio a phrofi systemau, a gwblhaodd wyth mlynedd o wasanaeth yn y fyddin ac a fu'n cystadlu fel aelod o dîm y DU ar gyfer Gemau Invictus 2017 mewn nofio, codi pŵer, rhwyfo ac athletau.

4. DARPARWCH LWYBRAU DILYNIANT A CHYFLEOEDD HYFFORDDI CLIR AR GYFER CYN-FILWYR

Fel gydag unrhyw gyflogai newydd, mae'n bwysig rheoli disgwyliadau cyflogeion, boed hynny o ran cyflog neu gyfleoedd dilyniant. Sicrhewch fod ymgeiswyr milwrol yn deall cwmpas llawn y manteision, dilyniant gyrfa a chyfleoedd datblygu o'r cychwyn. Mae ymgeiswyr milwrol wedi arfer â llwybr gyrfa strwythuredig iawn o raglenni dysgu parhaus, felly mae'n bwysig bod yn eglur ynglŷn â'r cyfleoedd i ddatblygu o fewn y sefydliad.

CYNGOR DA >>

Mae Terri Foulston yn esbonio cynllun talent y cwmni rheoli risg, Alcumus.

"Gall rhywun sy'n gadael y Lluoedd Arfog neu gyn-filwr gael cyfle i gysgodi un o'n cyflogeion presennol, archwilydd neu ymgynghorydd iechyd a diogelwch, a chael ymdeimlad o sut beth yw'r rôl. Os byddwch chi'n parhau i fod yn awyddus i fod yn archwilydd neu'n ymgynghorydd, byddwn yn eich gwahodd i gyfweiliad ffurfiol. Byddai'n dechrau fel ymgynghorydd neu archwilydd dan hyfforddiant, ac wrth i ni ei hyfforddi, mae angen iddo/iddi fod yn gwbl gymwys, mae'r cyflog yn cynyddu wrth iddo/iddi fod yn fwy medrus. Pan fydd wedi cyrraedd lefel ymgynghorydd llawn neu Archwilydd Arweiniol, cymeradwyir ei fod/bod wedi gorffen y rhaglen honno, sy'n nodweddiadol yn para chwe mis."

5. SICRHEWCH FOD EICH POLISIŌU AD YN CEFNOGI MILWYR WRTH GEFN

Bydd cael polisi wrth gefn gweladwy yn helpu denu a chadw recriwtiaid milwrol a hoffai barhau fel milwr wrth gefn. I gael arweiniad ar beth i'w gynnwys mewn polisi AD milwyr wrth gefn, edrychwch ar [dempled Llywodraeth y DU](#).

ENGHRAIFFT >>

Gall cyflogwyr lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog a theilwra adduned y cyfamod i'r hyn y gall eu busnes ei gefnogi. Mae cwmni peirianeg sifil ac adeiladu Alun Griffiths wedi cytuno i gefnogi'r cadetiaid lleol, gweithio mewn partneriaeth â Pheirianwyr Brenhinol Sir Fynwy a chefnogi pobl yn y busnes sy'n filwyr wrth gefn.

6. CEFNOGWCH AMGYLCHEDD GWAITH SY'N ADDAS I'R FYDDIN A DATBLYGWCH EICH DIWYLLIANT MILWROL

- Cymerwch ran mewn digwyddiadau sy'n dathlu aberthau a chyfraniadau'r fyddin, fel Diwrnod y Lluoedd Arfog.
- Gwnewch yn siŵr fod cyfathrebu mewnol rheolaidd ynglŷn â chefnogaeth y sefydliad i'r gymuned filwrol – erthygl newyddion, blogiau a chyfryngau cymdeithasol.
- Crëwch gymhellion ariannol ar gyfer cyflogeion presennol pan fyddant yn argymhell cyn-filwr sy'n llwyddo yn y cyfnod prawf.



CIPOLWG AR FUSNES BACH A CHANOLIG: D.J. REES

Mae'r cwmni ym Merthyr Tudful yn fach – 15 o gyflogeion i gyd – ond mae ei waith gyda'r Lluoedd Arfog yn aruthrol – sy'n dangos bod gan fusnesau o bob maint y potensial i elwa ar dalent filwrol.

Ffurfiwyd cwmni adeiladu D.J. Rees ym 1991 gan y Cyfarwyddwr, David Rees. Cwmni addurno ydoedd yn wreiddiol, ac yn ystod y 28 mlynedd y bu'r cwmni'n masnachu, mae wedi datblygu i fod yn arbenigwr cynnal a chadw adeiladu cyflawn tra'n cadw ei is-adran addurno. Mae'n llofnodwr Gyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n dangos ymrwymiad y cwmni i fod yn gyflogwr sy'n addas ar gyfer y Lluoedd Arfog, a hwn oedd y busnes cyntaf yng Nghymru i ennill Gwobr Aur chwenychedig Cynllun Cydnabod Cyflogwyr (ERS) y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Dechrau

Dechreuodd David ymwneud â'r Lluoedd Arfog ar ôl iddo fynd i brisio gwaith i Gymdeithasau Lluoedd y Milwyr wrth gefn a'r Cadetiaid (RFCA), sef uned ar gyfer pobl y Lluoedd Arfog sydd wedi cael eu hanafu mewn brwydr.

“Doedd pob anaf ddim yn gorfforol ac fe wnaeth hynny wir newid y ffordd roeddwn i'n gweld cyn-filwyr a milwyr wrth gefn ac roedd arna' i eisiau helpu. Cyfarfûm â rhai ohonyn nhw ac roedden nhw'n hynod gadarnhaol, tra bod rhai eraill ddim mor iach a hapus ag yr oedden nhw o'r blaen. Pan glywais am Gyfamod y Lluoedd Arfog, roeddwn i eisiau ei lofnodi, a dechreuais ymwneud yn fwy â chyn-filwyr.

“Rydw i'n gwmni bach ond rydw i wedi cyflogi milwyr wrth gefn ac rydw i'n helpu dod o hyd i waith i gyn-filwyr a milwyr wrth gefn trwy fy nghadwyn gyflenwi, diolch i [safle rhwydweithio busnesau] LinkedIn. Byddaf yn postio yno, gan ddweud yn y bôn, ‘pwysy'n gallu helpu'r cyn-filwr hwn?’”

“Dri mis yn ôl, postiais am gyn-filwr a oedd yn hyfforddi fel plymer. Roedd wedi gwneud y cwrs ond angen 12 wythnos o brofiad ar y safle i gael ei gymhwyster. Cysylltodd nifer fawr o bobl â mi a chafodd ei leoli, ac arweiniodd hyn wedyn at ei gadw. Mae'n rhoi ymdeimlad gwych i mi fy mod wedi helpu â hynny.

“Rydw i wedi dod o hyd i leoliadau ar gyfer o leiaf dri o gyn-filwyr trwy LinkedIn dros y 18 mis diwethaf, a thros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydw i wedi lleoli tua 12 o gyn-filwyr a milwyr wrth gefn. Ar hyn o bryd, mae gen i un cyn-filwr sydd wedi bod gyda nhw am bedwar mis fel saer coed dan hyfforddiant. Cyflogais gyn-filwr sy'n fenyw fel peintiwr cyn hynny.”

Prentisiaid

Maent wedi cael eu recriwtio o gynllun Llwybr Cyflogadwyedd y Lluoedd Arfog sy'n helpu cyn-filwyr ifanc di-waith

Cadetiaid

Darperir cymorth ariannol i Lu Cadetiaid y Fyddin yng Nghymru

Milwyr wrth gefn

Maent wedi cael cefnogaeth mewn cyflogaeth yn y busnes a gyda chyflenwyr

Ymgysylltu â phobl eraill

Mae David yn eiriolwr yr agenda Ymgysylltu â Chyflogwyr Amddiffyn ac mae'n frwdfrydig ynglŷn â chynnwys mwy o fusnesau bach a chanolig.

"Yng Nghymoedd De Cymru, lle rydw i'n gweithio, ychydig iawn, iawn o gyflogwyr mawr sydd. Mae'r rhan fwyaf ym Merthyr yn fusnesau bach a chanolig ond prin yw'r rhai sy'n gwybod am y cyfamod.

"Mae angen i gwmnïau bach wybod bod cyn-filwyr yn drydanwyr, yn beirianwyr ffeibr optig, yn arbenigwyr TG ac yn ddynion diogelwch, a does dim angen ailhyfforddi llawer ohonyn nhw. Mae gan bobl filwrol sgiliau cyfathrebu da hefyd."

"Mae gan bobl filwrol ddisgyblaeth hefyd – mae hynny o ran sut maen nhw'n ymddwyn yn y gweithle, i brydlondeb, i sut maen nhw'n gyrru. Rydw i'n fusnes bach, mae'n helpu fi cael staff sy'n gofalu'n dda am fy ngherbydau, oherwydd os na fydd un cerbyd yn gweithio, mae hynny'n niweidiol i'r busnes."

Pe bai pob cyflogwr o'n maint ni yng Nghymru yn cymryd rhan, byddai llawer o gwmnïau'n manteisio ar lawer o dalent filwrol gyda'i gilydd.



Mae D.J. Rees wedi recriwtio prentisiaid o'r Cynllun Llwybr Cyflogaeth Cyn-filwyr

CIPOLWG: ALCUMUS

Mae Alcumus yn mynd ati i recriwtio personél milwrol gan fod eu sgiliau yn gweddu'n rhagorol i'r proffesiwn iechyd a diogelwch. Mae Terri Foulston yn arwain tîm recriwtio mewnol Alcumus, tra bod Mark Burgess yn gyn-filwr ac yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Maes. Yma, maen nhw'n esbonio'r modd y buon nhw'n gweithio gyda'i gilydd i roi cynllun talent filwrol ar waith ar draws y Grŵp i fynd i'r afael â phrinder sgiliau.

Mae Alcumus, sydd â'i bencadlys yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, yn helpu sefydliadau i fod yn fwy diogel, yn iachach ac yn gryfach. Mae ganddo bum swyddfa ledled y DU ac mae'n gwasanaethu dros 40,000 o gleientiaid yn y DU. Mae tua 40% o'i weithlu cryf o 550 o bobl yn y DU yn gweithio yng Nghymru. Mae'r cwmni'n darparu atebion rheoli risg ym meysydd Iechyd, Diogelwch, Rheolaeth Amgylcheddol a Rheoli Ansawdd, ar gyfer sefydliadau ar draws amryfal sectorau.

Cyd-destun

Dywed Terri: "Mae rheoli risg yn ddiwydiant sy'n tyfu ond rydym yn wynebu anhawster yn recriwtio gweithwyr medrus. Mae'r rheswm dros hyn yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd iechyd a diogelwch yn dilyn trychinebau fel tân Tŵr Grenfell.

Yn ail, oherwydd galw cynyddol, mae mwy o gystadleuaeth i weithwyr yn y diwydiant hwn. Rydym wedi sylweddoli mai cyfle oedd hyn i edrych ar ein tîm hyfforddi mewnol ein hunain i gefnogi pobl a oedd yn fedrus ond nad oedden nhw'n gwbl gymwys i feithrin eu talent eu hunain.

Gweld cyfle ar gyfer talent cyn-filwyr

Dywed Terri: "Naw mis yn ôl, dychwelodd Mark o gyfnod byr yn gweithio mewn cystadleuydd i fod yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Maes. Adolygodd Mark ei dîm a nodi bod prinder o ran sgiliau mewn rhai diwydiannau (Diogeledd TG, Adeiladu a'r Diwydiant Bwyd) ac roedd yn gwybod y gallai'r rhai sydd wedi gadael y Lluedd Arfog a chyn-filwyr fodloni'r galw hwn. Cafodd y cynllun talent filwrol ei gynllunio a'i gyflwyno o ganlyniad. Rydym wedi bod yn cynnal y rhaglen hon ers saith mis bellach ac mae'n llwyddiannus.

"O ran sgiliau trosglwyddadwy cyn-filwyr, mae'n ymwneud i raddau helaeth â strwythur a phroses. Bu Mark yn gwneud cynnydd yn ei waith nes dod yn Swyddog Gwarant Dosbarth 1 (WO1) – sef uwch swyddog gwarant yn y Lluedd Arfog. Mae unrhyw un sy'n gweithio yn yr amgylchedd hwnnw wedi arfer â risg uchel – byddant yn drefnus, yn fanwl ac yn drylwyr iawn. Dyna sut bydd ein hymgyngorwyr yn gweithio gyda chleient, yn dilyn rheolau a rheoliadau. Mae llawer o'r hyn maen nhw'n ei wneud ynglŷn â sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, a phobl eraill. Ar yr un pryd, ar ochr archwilio busnes, mae hefyd ynglŷn â dilyn rheolau a rheoliadau. Mae'n debyg i filwr troed yn mynd ar ymarfer ac yn gwirio trwy ei becyn ymlaen llaw, er enghraifft. Bydd cyn-filwyr yn dod â'r holl brofiad presennol hwnnw a ffordd o weithio gyda nhw i'n busnes.

Mae **10-15%**

**o weithlu Alcumus
yn Gyn-filwyr**



Terri Foulston
Pennaeth Recriwtio
Alcumus

Dull

Dywed Terri: “Fe wnaethom ni ymuno â Gwasanaeth Adsefydlu'r Lluoedd Arfog Prydeinig (BFRS), sef menter gymdeithasol a grëwyd i helpu cymuned y Lluoedd Arfog i ailafael mewn bywyd bob dydd. Aethon ni i ychydig o ffeiriau gyrfaedd ar gyfer talent filwrol a gafodd eu cynnal yn Aldershot yn Hampshire a Tidworth yn Wiltshire. Yn sgil hynny, fe wnaethon ni gynnal diwrnod diwydiant, fel y gallai pobl y gwnaethon ni gyfarfod â nhw yn y ffeiriau gyrfaedd hynny fynd i un o'n swyddfeydd, siarad â chyflogeion am ein diwylliant gwaith a'r sefydliad a gallu gofyn cwestiynau, deall mwy am y rolau a'u profiad trosglwyddadwy.

“Os bydd rhywun sy'n gadael y Lluoedd Arfog neu gyn-filwr yn penderfynu ymgymryd â hyn, gallan nhw gael cyfle i gysgodi un o'n cyflogeion presennol, archwilydd neu ymgynghorydd iechyd a diogelwch, a gweld sut beth yw'r rôl. Os bydd yn awyddus o hyd i fod yn archwilydd neu'n ymgynghorydd, rydym ni'n ei wahodd am gyfweliad ffurfiol. Byddai'n dechrau fel ymgynghorydd neu archwilydd dan hyfforddiant ac, wrth i ni ei hyfforddi, mae angen iddo/iddi fod yn gwbl gymwys, mae'r cyflog yn cynyddu wrth iddo/iddi fod yn fwy medrus. Pan fydd wedi cyrraedd lefel ymgynghorydd llawn neu Archwilydd Arweiniol, cymeradwyr ei fod/bod wedi gorffen y rhaglen honno, sy'n nodweddiadol yn para chwe mis.

“Mae llawer o'n rolau yn rolau mewn cae, sy'n golygu gweithio o gartref, felly nid yw'n swydd 9 tan 5 mewn swyddfa. Dyna pam mae'n bwysig cael y lefel gywir o gymorth ar gyfer y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog sy'n ymuno â ni, fel eu bod nhw'n teimlo'n hyderus allan yn y cae, yn rheoli eu dyddiaduron eu hunain.

Dywed Mark: “Yn fy rôl fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau Maes, rydw i'n gyfrifol am 76 o archwilwyr amser llawn a 40 o is-gontractwyr. Gadewais y Lluoedd Arfog ar ôl 23 mlynedd yn 2009. Roeddwn i'n barod i adael y Lluoedd Arfog ond yn gweld gadael yn heriol. Rydw i'n falch iawn fy mod i wedi gwasanaethu fy ngwlad, ond nawr wrth edrych yn ôl yn sylweddoli bod y naid i fywyd bob dydd yn gallu bod yn ddechrau pennod newydd ac rydw i wedi defnyddio fy sgiliau trosglwyddadwy i'm helpu.

Sgiliau Milwrol Trosglwyddadwy

“Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydw i wedi helpu pobl i ysgrifennu CV ac wedi ceisio eu dysgu sut i ddod o hyd i swydd. Mae'r rhai sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog bob amser wedi gwneud mwy yn eu gyrfa filwrol nag y maent yn ei feddwl, felly mae angen iddyn nhw drosglwyddo eu hyfforddiant, eu sgiliau a'u profiad milwrol i'w defnyddio yn eu bywyd allan o'r fyddin.

“Er enghraifft, os ydych yn archwilio sefydliad yn unol ag ISO 27001 - sy'n darparu'r fanyleb ar gyfer systemau rheoli diogeled gwybodaeth arfer gorau - mae rhywun sy'n gadael y Signalau Brenhinol yn y Fyddin, neu arbenigwr signalau o'r Llynges neu'r Llu Awyr yn meddu ar gymwysterau cadarn a chefnidir mewn TG ac yn gwybod llawer am reoli gwybodaeth dra chyfrinachol, na fyddai rhywun y tu allan i'r Lluoedd Arfog yn meddu arnynt.

“Mewn ffeiriau recriwtio milwrol, rydw i'n siarad â phobl sy'n paratoi i adael y Lluoedd Arfog. Maen nhw'n dweud nad ydyn nhw erioed wedi gwneud gwaith archwilio o'r blaen. Ond, yn y Lluoedd Arfog, er enghraifft, mae milwyr ar orymdaith, rydych chi'n eu harchwilio nhw i weld a ydyn nhw'n gwisgo'r wisg yn gywir ac yn cario'r offer cywir. Trwy wirio'r unigolion hynny, rydych yn cynnal archwiliad. Yn yr un modd, os ydych chi wedi gwirio systemau arfau mewn storau, mae hynny'n broses archwilio arall.

“Yn Alcumus, rydym ni wedi bod yn llwyddiannus iawn yn recriwtio personél y Lluoedd Arfog. Mae ganddyn nhw lawer o sgiliau a phrofiad sydd o fudd i fusnesau ac mae'n strategaeth y gallai mwy o sefydliadau elwa arni, yn ein barn ni.”

Mark Burgess
Cyfarwyddwr Gweithrediadau Maes
Alcumus



CYNGHORION DA AR ADEILADU RHWYDWAITH MILWROL O FEWN EICH BUSNES

Mae Rhwydwaith Milwrol Mewnol yn ffordd wych o elwa ar y manteision y gall cyn-filwyr eu cynnig i'ch sefydliad. Gofynnwn ni i Lee Holloway, Prif Weithredwr [Cymdeithas y Swyddogion](#) am gynghorion da ar adeiladu rhwydwaith cryf ar gyfer cyn-bersonél y Lluoedd Arfog o fewn eich busnes.



Lee Holloway
Prif Swyddog Gweithredol
Cymdeithas y Swyddogion

- 1** Dylai fod gennych rwydwaith gyda diben a gweledigaeth glir sy'n cyd-fynd â brand/gweledigaeth eich sefydliad ac mae gwerthoedd yn sicrhau bod gweithgarwch yn gysylltiedig â hyn.
- 2** Dylai fod gennych unigolyn neu grŵp sy'n dangos yr ymroddiad/cymhelliant i wneud i'r rhwydwaith lwyddo a rhannu'r baich gwaith.
- 3** Dylech fanteisio ar, a dysgu oddi wrth gynlluniau/gweithgareddau eraill sydd eisoes yn cael eu cynnal yn y busnes a'r hyn y mae busnesau a sectorau eraill eisoes wedi ei wneud.
- 4** Dylech gyfleu gweithgarwch gyda chydweithwyr, cwsmeriaid, rhanddeiliaid – i gael amlygrwydd a chadw cymorth.
- 5** Dylech adrodd yn ôl i uwch reolwyr ar fanteision (a llwyddiannau).
- 6** Ymatebwch yn gyflym i unrhyw un sydd â diddordeb.
- 7** Dysgwch oddi wrth sefydliadau eraill a byddwch yn hael wrth rannu eich profiad eich hun.
- 8** Nodwch atalyddion – ewch i'r afael â'r hyn y gellir ei gyflawni.
- 9** Meddyliwch yn ofalus am sut i reoli rhwydwaith mawr neu rwydwaith sydd ar wasgar yn ddaearyddol.
- 10** Gwnewch hyn yn gynhwysol nid yn gyfyngedig – ymgysylltwch â'r rheiny heb gefndir milwrol ac integreiddio â meysydd eraill o'r busnes.

**“RYDYM YN
GWEITHIO GYDA
CYFLOGWYR I
GODI
YMWYBYDDIAETH
O FUDDION
CYFLOGI CYN-
FILWYR AC YN
ANNOG GWELL
DEALLTWRIAETH
O SUT I
'GYFIEITHU'
SGILIAU
MILWROL. MAE
GENNYM YCHWIL
SY'N
CADARNHAU BOD
CYFLOGI O BLITH
CYN-FILWYR YN
BUDDIO
BUSNESAU YN
UNIONGYRCHOL,
YN OGYSTAL Â
BOD YN 'BETH DA
I'W WNEUD'.”**

CYFLOGWCH DALENT: HOLI AC ATEB GYDA QIOPTIQ

Mae Lucy Morrell yn Uwch Ymgynghorydd AD sydd â chyfrifoldeb am recriwtio yn Excelitas Qioptiq, sy'n dylunio a gweithgynhyrchu cynhyrchion ffotoneg ar gyfer amrywiaeth o farchnadoedd, gan gynnwys meddyginiaeth, gwyddorau bywyd, amddiffyn, gweithgynhyrchu ac awyrod. Yn 2018, agorodd y busnes yn Sir Ddinbych warws newydd gwerth £3.7 miliwn i gefnogi ei contract £83 miliwn â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i wasanaethu offer golwg nos hanfodol i Lluoedd Arfog y DU ledled y byd. Mae'r cwmni'n cyflogi tua 650 o bobl ar draws ei safleoedd yn Llanelwy a Bodelwyddan, mae'n llofnodwr Cyfamod y Lluoedd Arfog ac wedi ennill Gwobr Arian (ERS) Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn. Fe wnaethom holi Lucy i ddarganfod sut maen nhw'n adnabod a denu talent filwrol i'w busnes.



Sut ydych chi'n recriwtio cyn-bersonél y Lluoedd Arfog?

Eleni, rydym ni wedi bod i dair ffair recriwtio ar gyfer pobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog. Rydym hefyd yn amrywiol o ran ble rydym yn hysbysebu ein swyddi i sicrhau ein bod yn denu'r bobl gywir, gan gynnwys cyn-staff milwrol. Roeddem yn postio swyddi gyda'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd. Hefyd, rydym wedi dechrau defnyddio MRHQ (Pencadlys Adsefydlu Milwrol) ar ôl iddynt gysylltu â ni, wedi iddynt weld ein bod wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog. Platfform ar-lein yw MRHQ sy'n helpu cyn-bersonél milwrol i ddod o hyd i swydd. Mae ganddo'r gronfa ddata fwyaf o bobl sy'n gadael y Lluoedd Arfog ac mae'n weithredol iawn ar Facebook. Hefyd, rydym yn defnyddio ychydig o wahanol asiantaethau recriwtio sy'n targedu cyn-bersonél milwrol.

Pam mae talent filwrol mor ddefnyddiol?

Yn Excelitas Qioptiq, rydym yn gwerthu cynhyrchion amddiffyn, ymhlith pethau eraill. Y bobl orau i werthu'r rhain i sefydliadau amddiffyn yw pobl fu yn y Lluoedd Arfog. Maent yn deall y cynhyrchion, maent yn gwybod sut mae'r pecyn yn gweithio, ac yn gwybod sut i osod y nwyddau. Yn yr un modd, o ran rolau warws ar gyfer y cynhyrchion hyn, mae pobl fu yn y Lluoedd Arfog yn deall sut mae angen pecynnu'r cynhyrchion hyn. Rydym yn creu cynhyrchion sy'n cael eu gwerthu i unrhyw sefydliad amddiffyn ledled y byd, gan gynnwys y DU, America ac Awstralia. Os ydym yn gwerthu ein cynnyrch i'r Fyddin Brydeinig, er enghraifft, yn defnyddio rhywun sydd wedi gwasanaethu yn y Fyddin, sy'n gyfarwydd â thermau ac acronymau'r Fyddin, sydd â'u cysylltiadau eu hunain hyd yn oed – mae hynny'n fuddiol.

Sut ydych chi wedi addasu eich recriwtio?

O ran recriwtio cyn-bersonél y Lluoedd Arfog, mae rhwystr iaith i'w ystyried. Er enghraifft, byddem yn defnyddio'r term triniwr 'deunydd', sy'n rôl warws. Ond gallai rhywun milwrol roi 'logisteg' ar eu CV. Pan fyddem yn hysbysebu am beiriannydd prawf, gallai rhywun milwrol ddefnyddio'r term peiriannydd dilysu. Mae'n gromlin ddysgu i'r ddwy ochr, fel rydym wedi dysgu trwy'r ffeiriau recriwtio milwrol rydym wedi eu mynychu, lle byddai pobl yn codi ein hysbysebion ac yn gofyn 'beth mae hyn yn ei olygu?'. Mae hyn wedi ein gwneud yn fwy ymwybodol o'r termau y byddai'r fyddin yn eu defnyddio. Rydym wedi addasu ein geirfa a'r ffordd rydym yn gosod ein rolau o'r herwydd. Bellach, rydym yn defnyddio ein term ni a'r term milwrol i sicrhau bod ein hysbysebion swyddi yn dal sylw'r bobl gywir pan fyddant yn chwilio am swyddi ar-lein.

Pa gynghorion fydddech chi'n eu rhoi i bobl eraill?

Byddwn i wir yn ystyried defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd y rhwydwaith milwrol. Mae LinkedIn yn dda ar gyfer hynny wrth i chi weld CVau pobl. Pan rydw i wedi siarad ag uwch arweinwyr yn y fyddin, maen nhw'n dweud ei fod yn rhan o'u rôl i sicrhau bod cyn-filwyr yn addasu i fywyd y tu allan i'r fyddin mor esmwyth ag y bo modd, felly maent yn croesawu cysylltiadau â chyflogwyr. Os byddwch yn cysylltu â dim ond ychydig o'r uwch arweinwyr milwrol hynny, ar-lein neu mewn bywyd go iawn, bydd eich rhwydwaith o gysylltiadau milwrol yn tyfu a gallwch ddatblygu cynulleidfa filwrol ar gyfer eich ymdrechion recriwtio.

CIPOLWG: ALUN GRIFFITHS CONTRACTORS

Mae David Manners yn Ymgynghorydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, yn Rheolwr Gweinyddu a Chydlynnydd Mynediad Rhaffau ar gyfer yr Is-adran Reilffordd yng nghwmni peirianeg sifil ac adeiladu Alun Griffiths Contractors, un o brif gwmnïau peirianeg sifil Cymru. Bu'n gwasanaethu yn y Fyddin Brydeinig ac mae bellach yn Swyddog Wrth Gefn yn y Fyddin. Mae David, sydd bellach yn Hyrwyddwr Lluoedd Arfog y cwmni, yn myfyrio ar ei brofiad ei hun a'r manteision busnes o gyflogi milwyr wrth gefn a'r rheiny sydd â chefnidir milwrol.

Dechreuais gydag Alun Griffiths Contractors ym mis Mai 2017. Gydag un o gyfarwyddwyr y cwmni, Richard Bruton, sydd hefyd yn gyn-filwr, fe wnaethom wthio am Wobr Efydd Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn (ERS) a'i derbyn ym mis Ionawr 2018.

“Fe wnaethom addo cefnogi'r cadetiaid lleol a chefnogi pobl yn y busnes sy'n filwyr wrth gefn.

“Mae Milwyr Wrth Gefn y Fyddin yn ymrwymo am o leiaf 27 diwrnod y flwyddyn, er bod llawer o hynny'n digwydd ar y penwythnos. I gyflogwyr, mae gwerth enfawr mewn cyflogi milwyr wrth gefn; mae'r fyddin yn rhoi iddyn nhw bobl sydd wedi cael hyfforddiant ychwanegol mewn sgiliau cyfathrebu ac arwain a mwy, yn ogystal â hyfforddiant proffesiynol yn y rôl maen nhw'n ei gwneud fel milwyr wrth gefn.

“Mae pobl filwrol yn hyblyg a gwydn. Maen nhw wedi arfer cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd yn annisgwyl yn unrhyw le yn y byd a bwrw ymlaen â'r gwaith. Mae pobl filwrol yn meddu ar lawer o sgiliau meddal hefyd. Er enghraifft, maen nhw wedi arfer gweithio gyda phobl dydyn nhw prin yn eu hadnabod, mewn amgylchiadau llym iawn – lle na allan nhw adael y gwaith am 5pm.

“Rhinwedd wych arall sydd gan gyn-filwyr yw eu bod yn amryddawn iawn; maen nhw'n addasu i newid yn dda.

“Roeddwn i'n symud bob dwy flynedd yn y Fyddin. Rydych chi'n symud lleoliad, yn symud eich teulu - popeth. Mae gan bobl filwrol feddylfryd cadarnhaol, gallan nhw fynd ati i wneud y gwaith a does dim ofn cyfrifoldeb arnyn nhw.

“Yn y diwydiant peirianeg sifil ac adeiladu, mae cyfathrebu'n bwysig. Yn y fyddin, y tro cyntaf y cewch ddyrchafiad, rydych chi'n cael eich anfon ar gyrsiau siarad cyhoeddus fel eich bod yn arfer siarad yn gyhoeddus ac â grwpiau mawr. Pan fydd pobl filwrol yn ysgrifennu CV, maen nhw'n meddwl am siarad cyhoeddus, er enghraifft, fel sgil cynhenid sydd gan bawb a dydyn nhw ddim yn sôn amdano. Ond dydy recriwtwyr ddim yn sylweddoli bod gan bobl filwrol y sgil hwn, sy'n arwain at golli cyfle ar y ddwy ochr.

“Mae'r gweithlu peirianeg sifil ac adeiladu yn heneiddio. Un o'r pethau rydym ni'n ceisio'i wneud yw argyhoeddi pobl sy'n gadael y fyddin i ystyried dechrau gweithio yn y diwydiant hwn a chefnogi milwyr wrth gefn fel ffordd o ddenu talent hefyd. Mae milwyr wrth gefn sy'n gysylltiedig â'r fyddin yn gallu canmol rhinweddau peirianeg sifil ac adeiladu ymhlith pobl sy'n gadael y fyddin.

“Mae angen i gwmnïau gael meddwl llawer mwy agored am recriwtio cyn-filwyr. Rhwch gyfle iddyn nhw a byddan nhw'n rhagori, oherwydd os na rowch y profiad hwnnw iddyn nhw, byddan nhw ddim yn ei gael.

“Mae’r Fyddin Brydeinig yn cynnal y cynllun prentisiaeth mwyaf ym Mhrydain – prentisiaid priodol, cymwys mewn mecaneg, fel technegwyr deintyddol, meddygon, AD, TG.

“Y camsyniad yw eich bod chi’n ymuno yn 16 oed ac yn treulio’ch holl fywyd yn gwneud un swydd. Ond dydych chi ddim yn gwneud un swydd am oes pan fyddwch chi’n gwasanaethu. Dechreuais fel milwr troed a phan adewais, roeddwn i’n gofalu am adnoddau dynol a chyllid catrawd. Rydych chi’n hyfforddi fel milwyr ond hefyd yn hyfforddi yn beth bynnag yw eich masnach, ac mae pobl filwrol wedi arfer hyfforddi. Rydych chi’n dechrau yn gwneud un swydd, wedyn bydd rhywun yn dweud wrthyf chi am fynd i wneud swydd arall, a bydd hyfforddiant yn sgil pob newid. Mae hyfforddiant wedi ei ymgorffori’n llwyr yn y fyddin.

Ysbrydoli talent

“Fe wnaethon ni adeiladu’r ffordd osgoi yn Y Drenewydd, Powys. Mae uned filwrol y Peirianwyr Brenhinol yn cynnal cwrs BTEC mewn peirianeg sifil ac adeiladu i bersonél gael eu dyrchafu i fod yn Swyddogion Gwarant. Fe wnaethom ddarparu’r lleoliad diwydiant wythnosol 4-6 wythnos ar Ffordd Osgoi’r Drenewydd. Daeth hynny am fod cyn-Beiriannydd Brenhinol yn y busnes.

Mae gan Alun Griffiths Contractors 800 o gyflogeion uniongyrchol a 150 o gontractwyr ac is-gontractwyr. Gyda’r cyfarwyddwr AD, rydym yn ceisio darganfod pwy yw’r holl gyn-filwyr hynny. Pan fyddwch yn gwybod pa mor fawr yw eich rhwydwaith milwrol, gallwch ddarganfod sut gallai hyn fod o fudd i’r busnes.

Ymgysylltu â’r gadwyn gyflenwi

“Un o’n prif gleientiaid yw Network Rail, sydd wedi ennill Gwobr Aur Cynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae Network Rail yn gofyn am bethau gan eu cadwyn gyflenwi ac rydym yn falch o gael y wobwr efydd a byddwn yn ceisio ennill y wobwr arian y flwyddyn nesaf. Wrth fynd ymlaen, byddwn yn cyfleu’r neges i lawr ein cadwyn gyflenwi ac yn dweud: ‘Rydym ni’n aelod o’r cynllun hwn. Fel un o’n cyflenwyr, os hoffech gael gwybod mwy, cysylltwch’.

“Fel busnes mwy, rydym ni mewn sefyllfa wych i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol am fod yn gyflogwr sy’n addas ar gyfer y Lluoedd Arfog i lawr ein cadwyn gyflenwi.”



Sgiliau ar gyfer y dyfodol: Mae Alun Griffiths wedi creu cyfleoedd lleoli ar y safle i feithrin cysylltiadau â’r fyddin

CIPOLWG AR FUSNESAU BACH A CHANOLIG: EMPOWER SUPPORT FOR THE VOLUNTARY SECTOR

Bev Garside yw Cyfarwyddwr Empower Support for the Voluntary Sector, sef busnes bach a chanolig sy'n gweithio i gefnogi'r sector elusennau. Mae'r cwmni yn Aberhonddu yn llofnodwr Cyfamod y Lluoedd Arfog ac mae wedi ennill Gwobr Arian Cynllun Cydnabod Cyflogwyr (ERS) y Weinyddiaeth Amddiffyn. Dywed Bev y gallai'r sector elusennau yng Nghymru lenwi'r bwlch o ran sgiliau trwy elwa ar dalent filwrol – ond fel busnes bach, mae ei phrofiadau'n hynod berthnasol i fusnesau bach a chanolig hefyd.

Dechrau

Tua dwy flynedd a hanner yn ôl, cyfarfûm â ffrind a oedd yn Swyddog a Gomisiynir gan y Fyddin. Roeddem ni'n rhannu gwybodaeth am ein sectorau priodol pan sylweddolom ni na fyddai llawer o ddatrys problemau yn y sector elusennau rydw i'n ei wneud yn angenrheidiol pe bai'r strwythurau a'r prosesau cywir ar waith. Gwnaeth fy ffrind i mi ddeall bod y fyddin yn canolbwyntio ar strwythur a phroses a'u bod yn chwilio am rolau lle gallant wneud gwahaniaeth go iawn.



Sylweddolom ni fod bwlch. Y mater arall yw bod rhengoedd is sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn gweld yn aml nad yw eu sgiliau'n cael eu cydnabod mewn bywyd allan o'r lluoedd arfog. Felly, maen nhw'n cael eu cyflogi mewn gwasanaeth neu waith sector manwerthu â chyflog isel yn y pen draw. Roeddwn i o'r farn y bydden nhw'n recriwtiaid cryf ar gyfer y sector elusennau mewn amrywiaeth o rolau – rolau arwain, rolau cymorth, gwaith rheoli prosiect.

Wedyn, cyflwynodd fy ffrind fi i un o Uwch-Sarsiantiaid ei Gatrawd i drafod y cymorth pwrpasol oedd ei angen ar rai sy'n gadael y Lluoedd Arfog.

Dechreuais adolygu CVau, gan droi iaith filwrol yn iaith bob dydd. Oddi yno, dechreuodd llawer o bobl ddod i wybod amdanaf i. Rydw i'n defnyddio NLP (Rhaglennu niwro-ieithyddol) hefyd a bûm yn siarad â nhw am y modd y mae pobl yn adnabod eu hiaith eu hunain a pham roedd yn bwysig adlewyrchu iaith y sector mewn CVau a ffurflenni cais.

Gofynnais i'r bobl hyn oedd wedi gadael y Lluoedd Arfog chwilio am rolau yr oeddent yn teimlo y gallen nhw eu gwneud a thynnu allan fanyleb yr unigolyn. Edrychwch ar y modd y mae cyflogwyr yn diffinio'r rôl honno a'r sgiliau hynny ac ystyriwch p'un a allwch gyfarfod â nhw a sut gallwch ddangos tystiolaeth o hynny.

Wedyn, dechreuais helpu â chyfweliadau. Mae hierarchaeth gref iawn yn y lluoedd. Os ydych chi'n cael eich cyfweld, yna rydych chi gan amlaf yn cael eich cyfweld gan rywun sy'n uwch na chi, ac mae gan hynny ei bŵer dynamig ei hun. Ond mewn cyfweliad yn y byd cyffredin, mae peidio â gofyn cwestiynau yn cyfyngu ar y lefel ymgysylltu.

Byddwn yn dweud 'Gofynnwch i'r cyfwelydd beth fyddai'n gwneud gwahaniaeth i chi? Beth fydddech chi ei angen gennyf fi i'ch gwneud yn fwy effeithiol? Wedyn, ewch ymlaen i esbonio sut bydddech yn cyflawni hynny.' Yn ddiwylliannol, cafodd llawer ohonyn nhw drafferthion mawr â hynny. Ond anaml y bydd cyflogwr yn rhoi'r problemau allweddol maen nhw'n eu hwynebu mewn swydd-ddisgrifiad. Does neb arall yn mynd i ofyn, felly rydych chi wedi sgorio pwyntiau o ofyn y cwestiwn hwnnw iddyn nhw.

Mae'r Lluoedd Arfog yn rhwydwaith gwych. O'r gwaith gwirfoddol cychwynnol hwn, cefais gyfle i gyfarfod â Swyddog uchel ac ysbrydoledig iawn y Fyddin yn yr Academi Amddiffyn yn Shrivvenham. Soniais wrtho am faint y sector elusennau a'r cyfleoedd niferus ar gyfer y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog. Mae'r rhan fwyaf o elusennau yn fach, ond gyda'i gilydd, maen nhw'n sylfaen cyflogwyr enfawr. Cyflwynodd fi i'r Tîm Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn (DRM).

"Rydw i bellach yn gweithio gyda'r tîm DRM yn Llundain, [sy'n darparu cymorth i sefydliadau ar gyflogi'r gymuned filwrol a gwerth llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog] gyda bwriad o gynnal digwyddiad yng Nghymru lle bydd personél milwrol a'r sector elusennau yn dod at ei gilydd fel y gallwn ni ddarparu cyfleoedd i gyn-filwyr a'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog weithio yn y sector elusennau. Mae llawer o synergedd rhwng sgiliau'r Lluoedd Arfog a'r sgiliau sydd eu heisiau a'u hangen ar y sector elusennau.

Heddiw, mae personél milwrol yn derbyn hyfforddiant llawer ehangach na hyfforddiant rhyfela traddodiadol. Dydw i ddim yn meddwl bod llawer o bobl yn sylweddoli pan fyddwch yn paratoi i adael y Lluoedd Arfog, eich bod yn derbyn cyllideb hyfforddi o £2,000. Felly, os byddwch yn cyflogi'r unigolyn sydd wedi gadael y Lluoedd Arfog, byddwch yn elwa ar y gronfa hyfforddi honno oherwydd bydd gennych weithiwr sy'n gallu cael hyfforddiant ond ni fydd rhaid i'r cyflogwr dalu am yr hyfforddiant.

"Byddwn i'n dweud wrth bob cyflogwr yng Nghymru: Dylai fod gennych bolisi ar gyfer y Lluoedd wrth gefn. Anogwch eich staff i ymuno â'r Lluoedd wrth gefn; mae cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer hyfforddiant a datblygiad proffesiynol. Recriwtiwch y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog a chyn-filwyr hefyd. Maen nhw'n wych ar gyfer eich busnes."

"Rydw i wedi cyflogi Milwr wrth gefn, Ashley. Roedd yn wych gweithio gydag ef: yn hyderus, yn dda yn cyflwyno, a gyda busnes bach fel fy musnes i, gallech chi ofyn iddo wneud unrhyw beth.

"Ashley a awgrymodd y dylen ni lofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog. A helpodd ni i wneud cais am Wobr Efydd y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr (ERS). Bellach, mae gennym Wobr Arian ERS.

Sgiliau arwain

"O fewn y sector elusennau neu yn wir o fewn llawer o fusnesau llai yng Nghymru, yn aml, nid oes cyllid neu gapasiti i fuddsoddi mewn arweinyddiaeth. Caiff arweinyddiaeth o fewn y Lluoedd Arfog ei chynnwys yn ddiwylliannol yn y system ac mae llawer o'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn meddu ar gymwysterau Lefel 3, 4 neu 5 ILM (Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth) mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth. Caiff Milwyr wrth gefn y Lluoedd Arfog yr un cyfleoedd i hyfforddi, ac felly, gellir rhyddhau staff i'r Lluoedd wrth gefn. Mae hyn yn eu galluogi i elwa ar hyfforddiant a phrofiad arwain gwerthfawr."

RHESTR WIRIO

CAM 01



Darganfyddwch a oes cefndir milwrol gan unrhyw un o'ch cyflogeion, neu unigolion o fewn eu rhwydweithiau

Os nad oes gennych chi unrhyw un sydd â dealltwriaeth o'r amgylchedd milwrol yn eich tîm recriwtio, manteisiwch ar gyngor a gwybodaeth cyflogeion / cysylltiadau sydd â chefnidir milwrol.

Dynodwch hyrwyddo ar lefel uwch i weithredu fel ffocws ar gyfer yr holl weithgarwch sydd â ffocws milwrol. Dylai'r unigolyn hwn fod yn eiriolwr gweladwy a llafar a helpu codi ymwybyddiaeth.

CAM 02



Datblygwch eich strategaeth cyflogaeth filwrol i gynnwys y camau gweithredu hyn

YSBRYDOLWCH



CYFLOGWCH



DATBLYGWCH



Dylid ysbrydoli a pharatoi cyn-filwyr ar gyfer cyflogaeth

Crëwch broses recriwtio hygrych

Dylid cadw, datblygu a gwella eich talent filwrol

Darparwch wybodaeth ac arweiniad – mynychwch ffeiriau gyrfaoedd wedi eu trefnu gan CTP neu elusennau milwrol. Weithiau, mae'r rhain y tu allan i Gymru ond gallwch gynnal eich diwrnod cipolwg eich hun hefyd neu weithio gyda phobl eraill i gynnal un

Cynigiwch gymorth un i un – gweithdai ysgrifennu CV, ffug gyfweiliadau, hyfforddiant a mentora 'trosi' diwylliant

Crëwch bartneriaethau cryf – gyda'r CTP neu elusen filwrol i elwa ar dalent filwrol

Darparwch brofiad gweithle ymarferol – ymlyniadau gwaith allan o'r lluoedd arfog, lleoliadau gwaith interniaethau

Ceisiwch ddenu talent filwrol – crëwch dudalennau gyrfaoedd ar-lein a hysbysebwn yn y lleoedd cywir

Byddwch yn filwrol-addas – lluniwch swydd-ddisgrifiadau clir a thryloyw, cynhaliwch gyfweiliadau effeithiol a rhowch adborth

Dylech ddeall a gwerthfawrogi'r profiad milwrol – dylech hyfforddi a chynorthwyo eich recriwtwyr i dehongli profiad milwrol, hwyluso mapio sgiliau effeithiol

Canolbwyntiwch ar botensial, nid profiad – datblygwch broses ymgeisio yn seiliedig ar gymhwysedd, heriwch y rhagdybiaeth fod profiad diwydiant yn ofyniad hanfodol

Cynigiwch gyfnodau ymsefydlu sy'n filwrol-addas – datblygwch broses gynefino gefnogol

Cefnogwch les cyflogeion milwrol – hyrwyddwch iechyd meddwl a chorfforol cadarnhaol, darparwch addysg am anawsterau iechyd meddwl ymhlith cyn-filwyr

Datblygwch ddiwylliant sy'n filwrol-addas – sicrhewch fod polisiau AD yn cefnogi milwyr wrth gefn, codwch arian ar gyfer achosion milwrol, cefnogwch goffadwriaethau a digwyddiadau milwrol, sefydlwch rwydwaith mewnol

Datblygwch a chadwch dalent filwrol – crëwch lwybrau clir ar gyfer dilyniant a chynlluniau datblygu strwythuredig

Dangoswch eich ymrwymiad – trwy lofnodi'r cyfamod (darganfyddwch fwy yn ein Hatodiad)

CAM 03



Cysylltwch eich gweithgareddau i greu rhaglen cyflogaeth filwrol gyfannol a chynaliadwy

Nodwch ffyrdd o gysylltu'r gwahanol gamau gweithredu ar draws tri maes eich rhaglen

Nodwch ddangosyddion perfformiad allweddol, gosodwch dargedau rhesymol a chymerwch gamau i gofnodi a gwerthuso'r effaith.

Rhannwch eich arferion a'ch profiadau gorau wrth gyflogi ymgeiswyr milwrol gyda chyflogwyr eraill.

Anogwch eich cleientiaid a'ch cadwyn gyflenwi i fabwysiadu proses recriwtio sy'n filwrol-addas

FY NGHAMAU GWEITHREDU A'R CAMAU NESAF

CYFEIRIADUR

Mae'r cyfeiriadur hwn yn rhestru cysylltiadau perthnasol i gyflogwyr sy'n ceisio ymgysylltu â chymuned y Lluoedd Arfog ac elwa ar dalent filwrol.

Partneriaeth Pontio Gyrfaoedd (CTP)

CTP yw darparwr adsefydlu swyddogol y Lluoedd Arfog, sy'n cynnig cymorth adsefydlu, cyfleoedd pontio gyrfaoedd a hyfforddiant.

Tim Cymorth Canolog
0121 236 0058
EmployerSupport@ctp.org.uk
www.ctp.org.uk

Elusen Gyflogaeth y Lluoedd (RFEA)

Mae'r RFEA yn darparu gwasanaeth chwilio am swydd ar gyfer y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr. Gall cyflogwyr gofrestru i restru swyddi gwag. Yng Nghymru, eu canolfan yw canolfan galw i mewn y Lleng Brydeinig Frenhinol ar y Stryd Fawr yng nghanol dinas Caerdydd.

0121 262 3058
info@rfea.org.uk
www.rfea.org.uk

Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn (DRM)

Y DRM yw'r pwynt cyswllt unigol sy'n cysylltu cyflogwyr gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD). Mae DRM yn rheoli Cyfamod y Lluoedd Arfog ar ran y Weinyddiaeth Amddiffyn ac mae'n gyfrifol am Gynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Gweler Cymdeithasau'r Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid isod am fanylion cyswllt.
www.gov.uk/government/groups/defence-relationship-management

Cymdeithasau'r Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid (RFCA)

Mae tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr RFCA ar gyfer Cymru yn helpu a chynghori sefydliadau, cwmnïau, milwyr wrth gefn a Gwirfoddolwyr sy'n Oedolion yn Llu'r Cadetiaid am faterion cyflogaeth sy'n gysylltiedig â Phobl ym maes Amddiffyn. Maent yn gweithio gyda sefydliad Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn y Weinyddiaeth Amddiffyn (DRM) i feithrin perthnasoedd gyda chyflogwyr.

Audrey Nealon, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Ymgysylltu â Chyflogwyr ar gyfer De Cymru
029 2037 5734
wa-reed@rfca.mod.uk

Tony Fish, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Ymgysylltu â Chyflogwyr ar gyfer Gogledd Cymru
01352 755 309
wa-reed2@rfca.mod.uk

www.wales-rfca.org

Cymdeithas y Swyddogion

Mae'n cynorthwyo cyn swyddogion y Lluoedd Arfog. Mae'n cynnig cyfle i gyflogwyr elwa ar garfan dalentog o gyn swyddogion sy'n meddu ar amrywiaeth o sgiliau.

0207 808 4178
recruitment@officersassociation.org.uk
www.officersassociation.org.uk

Y Lleng Brydeinig Frenhinol Cymru

Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn darparu cymorth gydol oes ar gyfer cymuned y Lluoedd Arfog – dynion a menywod sy'n gwasanaethu, cyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae Swyddfa Ardal Cymru ar y Stryd Fawr yng nghanol dinas Caerdydd.

0808 802 8080
wales@britishlegion.org.uk
www.britishlegion.org.uk

The Poppy Factory

The Poppy Factory yw elusen gyflogaeth arweiniol y DU ar gyfer cyn-filwyr â chyflyrau iechyd.

020 8940 3305
workwithus@poppyfactory.org
www.poppyfactory.org

Pencadlys Adsefydlu Milwrol (MRHQ)

Platfform ar-lein sy'n helpu cyn-bersonél milwrol i ddod o hyd i gyflogaeth. Gall cyflogwyr bostio swyddi a chwilio am CVau.

0330 043 2505
support@mrhq.co.uk
www.mrhq.co.uk

Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB)

Mae'r FSB yn cynnig cyngor, arbenigedd a chymorth ariannol i aelodau, sydd wedi'u hanelu at helpu busnesau bach i gyflawni eu huchelgeisiau. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at sefydliadau sy'n gallu cefnogi busnesau i ddatblygu arferion recriwtio sy'n addas ar gyfer y Lluoedd Arfog.

029 2074 7406
wales.policy@fsb.org.uk
www.fsb.org.uk

Gwasanaethau Adsefydlu y Lluoedd Arfog (BFRS)

Menter Gymdeithasol yw BFRS sydd wedi'i chreu i helpu Cymuned y Lluoedd Arfog â'u cyfnod trosglwyddo i fywyd y tu allan i'r lluoedd arfog. Maent yn cynnal ffeiriau gyrfaedd gan gysylltu personél milwrol â chyflogwyr, ffeiriau gyrfaedd rhithwir, ac yn cynnig gwasanaethau recriwtio.

02476 939 931
info@bfrss.org.uk
www.bfrss.org.uk

Sylwer, mae pob un o'r sefydliadau hyn yn cynnig cymorth i gyflogwyr yng Nghymru.

GEIRFA A – Y

Terminoleg	Diffiniad
RHAI SY’N GADAEL Y LLUOEDD ARFOG YN GYNNAR (ESLS)	Y rhai sy’n gadael y Lluoedd Arfog sy’n cwblhau llai na 4 blynedd o Wasanaeth yn y Lluoedd Arfog neu sy’n cael eu rhyddhau’n orfodol.
CREDYDAU DYSGU MANYLACH (ELCS)	Rhoddir credydau datblygiad personol i bersonél milwrol sy’n gysylltiedig â’r amser a wasanaethir. Gellir defnyddio’r credydau hyn nid yn unig tra byddant yn y Gwasanaethau ond hefyd am gyfnod cyfyngedig ar ôl gadael. Mwy ar ELC see www.enhancedlearningcredits.com
RHYDDHAU MEDDYGOL	Rhywun nad yw’n gallu bodloni safonau meddygol milwrol ar gyfer gweithgareddau gweithredol mwyach. Nid yw’n golygu cyfyngiadau mawr ar waith y tu allan i’r lluoedd arfog – gallai fod gan beilot nam ar y golwg ond mae’n berffaith abl i weithio mewn amgylcheddau eraill.
SYMUDIADAU	Defnyddir yng nghyd-destun y rheiny sy’n dal atebolrwydd milwyr wrth gefn sy’n cael eu galw ar gyfer dyletswydd filwrol weithredol.
SWYDDOG HEB EI GOMISIYNU (NCO)	Mae swyddogion yn ennill ‘comisiwn’ gan y Frenhines ond ni chaiff rhengoedd eraill fel Swyddogion Gwarant ac fe gânt eu hadnabod fel Swyddogion Heb eu Comisiynu. Mae ganddynt gyfrifoldebau rheoli yn gyffredinol.
SWYDDOG	Rhywun sy’n cael ei ddewis ar gyfer rheoli a hyfforddiant technegol ac sydd wedi mynychu’r colegau milwrol yn Dartmouth, Sandhurst neu Cranwell. Mae hyfforddiant cynnar yn debyg i Gynllun i Raddedigion o fewn cymuned ddysgu broffesiynol fawr.
RHENGOEDD ERAILL	Yr aelodau hynny o’r Lluoedd Arfog nad ydynt yn swyddogion. Mae’n cynnwys y morwyr isaf, milwyr, awyrenwyr, Swyddogion heb eu comisiynu, Uwch Swyddogion Heb eu Comisiynu (NCO) ac i fyny i Swyddogion Gwarant.
LLUOEDD RHEOLAIDD	Personél milwrol a gyflogir amser llawn ac sydd wedi llofnodi contractau tymor hir.
LLUOEDD WRTH GEFN	Mae’r lluoedd wrth gefn yn cynnwys gwirfoddolwyr a milwyr wrth gefn rheolaidd. Cyn aelodau amser llawn o’r Lluoedd Arfog yw milwyr wrth gefn rheolaidd. Mae milwyr wrth gefn gwirfoddol yn bobl sydd â gyrfaedd y tu allan i’r fyddin sydd wedi ymuno o’r gymuned allan o’r lluoedd arfog.
ADSEFYDLU	Y term sy’n cwmpasu cyfuniad o weithgareddau, amser a chymorth ariannol a roddir i gynorthwyo cyfnod pontio o wasanaeth milwrol i fywyd allan o’r lluoedd arfog.
CYN-FILWR	Mae’r Llywodraeth yn diffinio cyn-filwr fel rhywun sydd wedi treulio amser (un diwrnod neu fwy) yn gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog fel milwr rheolaidd neu filwr wrth gefn.
WEDI CLWYFO, WEDI ANAFU A SÂL (WIS)	Mynegiant cymharol newydd sy’n adlewyrchu’r cymorth a roddwyd ar waith i ymateb i weithrediadau yn Irac ac Affganistan lle caiff personél Gwasanaeth eu rhoi bellach o dan y categori ‘Wedi Clwyfo, Wedi Anafu a Sâl’. Mae gan lawer ohonynt y gallu i ddychwelyd i rôl arferol mewn bywyd allan o’r lluoedd arfog.

ATODIAD

CYMORTH CYFLOGAETH AR GYFER PERSONÉL MILWROL

Partneriaeth Pontio Gyrfaoedd

Mae'r Bartneriaeth Pontio Gyrfaoedd (CTP) yn darparu gwasanaethau adsefydlu, gan gynnwys cymorth datblygu gyrfa, i unrhyw un sy'n gadael y lluoedd arfog. Ni waeth faint o amser a wasanaethwyd, mae'r CTP yn cynnig gwasanaethau am ddim i wneud y cyfnod pontio i fywyd allan o'r lluoedd arfog mor esmwyth ag y bo modd.

Mae'r CTP, sy'n dechrau o ddwy flynedd cyn rhyddhau, ac yn cynnal hyd ddwy flynedd ar ôl rhyddhau, yn cyflwyno ystod o gymorth cyflogadwyedd o greu CV ac ymchwilio am gyfleoedd swydd, i geisiadau a sgiliau cyfweld. Hefyd, mae'n gweithredu cyrsiau hyfforddi galwedigaethol arbenigol.

Cytundeb partneru rhwng y Weinyddiaeth Amddiffyn a Right Management Ltd yw'r CTP, datblygiad gyrfa byd-eang ac arbenigwr all-osod sy'n rhan o'r ManpowerGroup.

Gadawodd

14,760

y fyddin yn y flwyddyn ddiwethaf

Mae **82%**

o'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog yn defnyddio CTP mewn cyflogaeth chwe mis ar ôl gadael⁹

> 6 BLYNEDD O WASANAETH

Rhaglen Graidd CTP

Mae personél hirsefydledig (dros chwe blynedd) ac unrhyw un sydd wedi cael ei ryddhau'n feddygol yn cael cynnig y pecyn cymorth mwyaf cynhwysfawr. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar yrfa unigol i ddatblygu Cynllun Adsefydlu Personol. Mae'r rhaglen yn cynnig gweithdai gyrfaoedd, ystod o gyrsiau galwedigaethol, ymlyniadau treialu (lleoliadau gwaith) a mynediad parhaus at CTP RightJob, ei wasanaeth chwilio am swyddi ar-lein.

4 – 6 BLYNEDD O WASANAETH

Rhaglen Cymorth Cyflogaeth CTP

Ar gyfer y rheiny sy'n gadael gyda rhwng pedair a chwe blynedd o Wasanaeth, mae'r Rhaglen Cymorth Cyflogaeth yn cynnig mynediad at gymorth, gan gynnwys ystod o ddigwyddiadau cyflogaeth a chymorth i ddod o hyd i swydd trwy CTP RightJob.

< 4 BLYNEDD O WASANAETH

CTP Future Horizons

Mae ymadawyr sy'n gwasanaethu am lai na phedair blynedd neu'r rheiny sy'n cael eu rhyddhau'n orfodol yn cael cynnig cymorth i ddod o hyd i gyflogaeth yn y dyfodol trwy gynghorydd arbenigol. Gall y personél hyn, sy'n cael eu hadnabod fel y Rhai sy'n Gadael y Lluoedd Arfog yn Gynnar (ESL) fod dan anfantais yn y farchnad lafur ac mae Future Horizons yn eu cysylltu â'r lefel fwyaf priodol o gymorth trwy rwydwaith o sefydliadau partner.

⁹ [Ystadegau Blynyddol Partneriaeth Pontio Gyrfaoedd: Cyflogaeth Personél Gwasanaeth Rheolaidd y DU rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2017](#)

Gwasanaethau CTP ar gyfer cyflogwyr

Mae'r CTP yn cynnig gwasanaethau recriwtio am ddim i gyflogwyr hefyd. Mae gwasanaeth RightJob y CTP, sydd â mynediad at garfan o gyn-filwyr talentog o ansawdd uchel, wedi cael ei greu yn benodol i helpu cyflogwyr i ddod o hyd i'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt. Mae'n hawdd cofrestru fel cyflogwr ac mae CTP yn darparu cymorth i gyflogwyr i'w helpu i recriwtio trwy'r plattfform.

Ewch i ctp.og.uk i gael mwy o wybodaeth am wasanaethau CTP

Rheoli Perthnasoedd Amddiffyn (DRM)

Mae DRM yn cynnig cymorth a chynghor ar gyflogi aelodau o'r Lluoedd Arfog, gan gysylltu cyflogwyr â'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae'r tîm DRM yn gweithio gyda chyflogwyr yng Nghymru a ledled y DU i feithrin partneriaethau buddiol ar y ddwy ochr a hyrwyddo manteision llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog. Mae cymorth i gyflogwyr yn cynnwys cymorth i:

- greu polisiau AD hyblyg i gefnogi cyflogi milwyr wrth gefn a gweithio gyda CTP i gynnig cyflogaeth i bersonél lluoedd rheolaidd ar ddiwedd eu Gwasanaeth
- cefnogi trosglwyddiadau mwy heriol i gyflogaeth ar gyfer y rheiny sydd wedi eu clwyfo, yn sâl neu wedi eu hanafu
- cynnig cyflogaeth i wŷr/partneriaid sifil personél y Lluoedd Arfog
- creu cyfleoedd datblygu sgiliau ar y cyd mewn meysydd fel peirianeg, meysydd meddygol, cyfathrebu a diogeledd seiber

Ewch i gov.uk/government/groups/defence-relationship-management

Cyfamod y Lluoedd Arfog (AFC) yng Nghymru

Adduned gan y genedl yw Cyfamod y Lluoedd Arfog fod y rheiny sy'n gwasanaethu neu wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, a'u teuluoedd, yn cael eu trin yn deg.¹⁰

Daeth y Cyfamod yn gyfreithiol yn Neddf y Lluoedd Arfog 2011, ac mae'n sicrhau:

- na ddylai'r un aelod o gymuned y Lluoedd Arfog fod dan anfantais o ganlyniad i'w Wasanaeth wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus neu fasnachol
- bod ystyriaeth arbennig yn cael ei rhoi mewn rhai achosion am y rheiny sydd wedi rhoi'r mwyaf, fel y rhai sy'n galaru neu'r rheiny sydd wedi eu hanafu.

Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi llofnodi'r Cyfamod a, hyd yma, mae dros 100 o fusnesau, sefydliadau ac elusennau ledled Cymru wedi ymuno â nhw.¹¹ Gall busnesau sy'n llofnodi'r cyfamod wneud adduned ar sail y cymorth y gall eu busnes ei ddarparu.

I hyrwyddo'r sefydliadau hynny sydd wedi ymdrechu fwyaf i fod yn fwy addas ar gyfer y lluoedd – o ran cynorthwyo milwyr wrth gefn a chyflogi cyn-bersonél Gwasanaeth – mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnal y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr. Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod y cyflogwyr sydd wedi addunedu a dangos cefnogaeth i gymuned y Lluoedd.

I llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog, ewch i armedforcescovenant.gov.uk

¹⁰ [Cyfamod y Lluoedd Arfog: Arweiniad a Chymorth](#), MOD, Ionawr 2014

¹¹ [Cyfamod y Lluoedd Arfog: pwy sydd wedi llofnodi'r cyfamod?](#)

Cymorth Cyflogwyr ar gyfer Milwyr Wrth Gefn

Mae milwyr wrth gefn yn hyfforddi a gwasanaethu ochr yn ochr â phersonél rheolaidd ar draws ein holl wasanaethau arfog. Mae'r dynion a'r menywod hyn yn ymrwmo i hyfforddiant rheolaidd, a gellir galw arnynt i gynorthwyo gartref neu dramor. Gall cyflogwyr elwa ar y sgiliau a'r profiadau y mae milwyr wrth gefn yn eu hennill trwy eu gwasanaeth, ac yn gyfnewid am hynny, mae ganddynt rai hawliau a chyfrifoldebau. Caiff rhai o'r rhain eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth ac mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyhoeddi arweiniad clir ar bopeth y mae angen i gyflogwyr ei wybod yn ei Becyn Cymorth i Gyflogwyr Milwyr Wrth Gefn¹² yn gov.uk.

Cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhai sy'n Gadael y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr

Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn amcangyfrif bod cynifer â 385,000¹³ o aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog yn byw yng Nghymru. I gefnogi'r gymuned hon ac yn unol â Chyfamod y Lluoedd Arfog yn y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Arbenigwyr y Lluoedd Arfog a Phecyn Cymorth ar gyfer y rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Ym mis Tachwedd 2018, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Llwybr Llywodraeth Cymru i gefnogi cyn-filwyr a'r rhai sy'n gadael y Lluoedd Arfog. Mae'r adnodd hwn yn cynnwys gwybodaeth am y prif ffynonellau cymorth â phontio a'r amrywiaeth o gymorth â chyflogadwyedd, sgiliau a hyfforddiant sydd ar gael yng Nghymru hefyd, gan gynnwys:

- Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy
- Twf Swyddi Cymru
- Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd
- Cymru'n Gweithio
- Busnes Cymru
- Gyrfa Cymru
- Elusennau Milwrol

Yn ogystal ag astudiaethau achos buddiol, mae hefyd yn cynnwys manylion cyswllt llawer o sefydliadau sy'n darparu cymorth ar gyfer cyflogaeth, addysg, lleoliadau gwaith a mentora.

I ddarganfod mwy a lawrlwytho Llwybr Llywodraeth Cymru, ewch i gov.wales/armedforcessupport

“I gydnabod eu gwasanaeth dros eu gwlad, mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid helpu pob aelod o'r Lluoedd Arfog, os bydd angen, i ddod o hyd i gyflogaeth addas, p'un a yw hynny'n syth ar ôl ei ryddhau, neu'n ddiweddarach mewn bywyd.”

Llwybr Llywodraeth Cymru

¹² [Pecyn Cymorth Cyflogwyr Milwyr Wrth Gefn](http://gov.uk)

¹³ Y Lleng Brydeinig Frenhinol